Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.11.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# TRETH: Cymorth digidol Cyllid a Thollau EF ar gyfer Hunanasesu

Mae CThEF wedi diweddaru eu canllawiau i'ch helpu i ddysgu mwy am ddechrau arni gyda Hunanasesu, gan gynnwys cofrestru, ffurflenni treth, biliau treth a thaliadau, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-self-assessment

# BREXIT: Busnesau i gael hyblygrwydd marcio cynnyrch y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd busnesau'n cael 2 flynedd ychwanegol i osod y marc diogelwch cynnyrch newydd Asesiad Cydymffurfiaeth y DU (UKCA), a bydd yn parhau i gydnabod y marc CE tan 31 Rhagfyr 2024. Tan hynny, mae gan fusnesau'r hyblygrwydd i ddewis pa farciau i'w defnyddio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3EQGsJ6

# CYLLID: Rhaglen Grant Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol

Mae grant newydd, a ariennir gan Cadw, sy'n canolbwyntio ar atgyweirio adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu mewn cyflwr bregus, ar gael i unigolion preifat a sefydliadau nid-er-elw. Gall y Rhaglen Grant Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol ariannu 50% o waith cymwys (hyd at uchafswm o £250,000) i ddiogelu adeiladau rhestredig sydd mewn perygl ar gyfer y dyfodol, er budd y gymuned ehangach. Disgwylir Datganiadau o Ddiddordeb (EOI) erbyn 23 Rhagfyr 2022, Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://cadw.llyw.cymru/rhaglen-grant-cyfalaf-adeiladau-hanesyddol

# LLES: Gweithio gyda COVID hir

Mae canllawiau i weithwyr Adnoddau Dynol proffesiynol, rheolwyr llinell a chydweithwyr sy'n cynnig cyngor ac argymhellion ymarferol i gynnig cymorth i weithwyr sydd â COVID hir i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yn y gwaith, ar gael ar:

http://bit.ly/3Xj7eRv

# NEWYDDION: Datganiad yr Hydref 2022 Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae crynodeb o'r mesurau allweddol sy'n berthnasol i fusnesau yn Natganiad yr Hydref yr wythnos diwethaf gan Lywodraeth y DU wedi cael ei gyhoeddi gan Busnes Cymru, ewch i:

http://bit.ly/3Onmk4y

Mae dogfennau Llywodraeth y DU sy’n ymwneud â’r Datganiad ar gael ar:

https://www.gov.uk/government/publications/autumn-statement-2022-documents

# DIGWYDDIAD: Uwchgynhadledd Twf Busnes Gogledd Cymru 29 Tachwedd 2022

Bydd Antur Cymru yn cynnal Uwchgynhadledd Twf Busnes Gogledd Cymru yn Quay Hotel & Spa, Deganwy LL31 9DJ ar 29 Tachwedd 2022 (9:00am-4:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3hQnJUS

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru